



Ysgol Maesydderwen

Prosbectws Ysgol



*Working Together, Achieving More
Cydweithio a Chyflawni*



Croeso

Ar ran y Llywodraethwyr, staff a myfyrwyr, hoffwn ymestyn groeso cynnes i Ysgol Maesydderwen. Yn y tudalennau nesaf, mae gwybodaeth fanwl am ein hysgol gyda llwyddo. Bod dydd, gwnawn ein gorau glas i sicrhau fod pob plentyn yn chwilfrydig, uchelgeisiol a llwyddiannus. Ein nod yw fod pob disgybl yn Ysgol Maesydderwen yn hapus ac yn ffynnu.

Rwyf yn falch iawn o fod yn Bennaeth ysgol sydd wrth galon ei chymuned leol. Bu Ysgol Maesydderwen wrthi'n gwasanaethu cymuned Ystradgynlais a'r ardal am dros ganrif. Mae'r etifeddiaeth gyfoethog hon, ynghyd â'r cyfleusterau addysgu ardderchog 21 ganrif, yn creu'r llwyfan gorau posibl i sicrhau llwyddiant ein disgyblion. Anelwn i gefnogi disgyblion i gyrraedd eu potensial mewn ystod eang o bynciau academiaidd a galwedigaethol, gan ffocysu ar ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol. Dymunwn i bob disgybl adael yr ysgol yn gallu cystadlu ym myd gwaith neu addysg bellach.

Ein cenhadaeth ysgol yw **“Cyd-weithio i Lwyddo”** a dyma'r neges sydd yn sail i'n gwaith cyfan fel cymuned ysgol. Mae gennym ddisgwyliadau uchel o bob disgybl ac ymrwymwn i gefnogi pob un i gyflawni eu gorau.

Mr Phil Grimes
Pennaeth

Y Cwricwlwm

Mae gennym gwricwlwm eang, cytbwys ac ysgogol ac anelir i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth pob dysgwr. Ar ben y dysgu ffurfiol, cynigir ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol i gyfoethogi'r profiad addysgu.

Blynyddoedd 7-9

Bydd pawb yn astudio Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Celf, Dylunio a Thechnoleg, Ffrangeg, Daeryddiaeth, Hanes, Technoleg Gwybodaeth, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Grefyddol.

Blynyddoedd 10 & 11

Astudir y pynciau craidd gan bawb sef, Saesneg (laith), Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg, Rhifedd, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, Addysg Gorfforol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Grefyddol. Yn ogystal, bydd myfyrwyr yn dewis tri phwnc ychwanegol o'r opsiynau eang sydd ar gael.

Blynyddoedd 12 & 13

Mae Ysgol Maesydderwen yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill ar draws De Powys i sicrhau bod gan fyfyrwyr ddewis eang o bynciau Safon Uwch a BTEC Lefel 3 galwedigaethol. Bydd bron pawb hefyd yn astudio'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru Lefel 3, yn ogystal â'u pynciau opsiynol. Cynllunir y cwricwlwm gyda'r pwyslais ar anghenion pob unigolyn. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu a'r dechnoleg ddiweddaraf i gefnogi dysgu ac addysgu ac i gefnogi'r cwricwlwm.



“Dw i wrth fy modd yn dysgu am bethau newydd a bob amser yn cael yr help sydd ei angen i baratoi ar gyfer arholiadau. Mae fy athrawon yn dangos angerdd am eu pynciau ac yn gwneud yn siwr ein bod ni'n dal ati.”
Disgybl Blwyddyn 11.



Yr Iaith Gymraeg

Yn Ysgol Maesydderwen, ymfalchiwn yn ein hiaith a'n treftadaeth. Mae pawb yn astudio Cymraeg Ail Iaith Er mai Saesneg yw prif iaith yr ysgol, anogir y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ysgol, i adlewyrchu naws Gymraeg yr ardal leol. Dathlir yr iaith a diwylliant Cymru mewn gwasanaethau, cyngherddau Dydd Gŵyl Dewi, Eisteddfodau ac yn draws-gwricwlaidd. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r Siarter Iaith ac mae rhaglen yr Urdd yn gweithredu gyda Chlwb yr Urdd wythnosol.



Addysg Grefyddol a Chydaddoliad Boreol

Ysgol Gristnogol ydy Maesydderwen o ran cymeriad ond rydym yn adnabod sawl ffydd a chredoau eraill. Dechreuwa bob dydd gyda gwasanaeth neu amser i fyfyrion yn ystod gwrs diwtor. Seilir cydaddoliad ar werthoedd hanfodol bywyd, gan gynnwys dewrder, creadigrwydd, heddwch, ymddiriedolaeth, maddeuant, cyfiawnder, diolchgarwch, cydymdeimlad, cyfeillgarwch, gobaith, gwirionedd a gostyngieddrwydd. Mae gwrsi Addysg Grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm craidd i bob disgybl ym Mlynedd 7 i 11. Yn dilyn Maes Llafur Cytunedig yr Awdurdod Lleol, mae'r cysiau yn bwrw golwg ar syniadau, credoau a ffyrdd o fyw pobl o wahanol ffydd, ac yn tynnu ar Gristnogaeth a chrefyddau byd eraill am ddeunyddiau enghreifftiol. Gall rieni ofyn i dynnu eu mab neu ferch yn ôl o'r gwrsi Addysg Grefyddol a/neu'r weithred o gydaddoli drwy gysylltu â'r Pennaeth.



Addysg Ryw a Pherthnasoedd

Caiff hwn ei ddarparu drwy wersi Gwyddoniaeth ac Addysg Personol a Chymdeithasol. Ar bob adeg, cyflwynir gwrsi sy'n trafod materion sensitif gyda'r pwyslais ar werthoedd a chaiff yr holl adnoddau eu gwirio gan yr uwch dîm i sicrhau eu gweddusrwydd. Pe bai rieni angen mwy o wybodaeth am bolisi Rhyw a Pherthnasoedd yr ysgol, a gytunwyd gan y Llywodraethwyr, dylent gysylltu â'r Pennaeth. Gallant hefyd dynnu eu plentyn yn ôl o'r rhaglen gyfan, heblaw am yr hyn a ddarperir gan gwricwlwm y cysiau Gwyddoniaeth. Fodd bynnag, cyn penderfynu, dylai rieni gysylltu â'r Pennaeth.

Iechyd, Ffitrwydd a Chwaraeon

Ein hamcan yw i sicrhau bod pob plentyn, o bob gallu, yn cael y cyfle i ddarganfod a gwella eu sgiliau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae'r Adran Addysg Gorfforol yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i fod yn greadigol a chystadleuol drwy chwaraeon, ac yn wynebu heriau fel unigolion ac o fewn tîm. Mae cyfleustrau chwaraeon ardderchog yr ysgol yn cynnwys caeau chwarae, neuadd chwaraeon bwrpasol, campfa a stiwdio ffitrwydd wedi'u cyfarparu'n llawn, Astroturf maint llawn gyda llifoleuadau a phwll nofio 25 metr dan do.

Y mae nifer o glybiau chwaraeon a chyfleoedd allgyrsiol eraill ar gael, gan gynnwys pêl-fasged, dawns ac hyfforddiant cylchedd. Cefnogir ein hadran Addysg Gorfforol gan swyddog 5x60 yr ysgol ac aelodau'r gymuned. Er ein bod yn ysgol fach, mae nifer o'n dysgwyr wedi cynrhycholi'r sir a Chymru mewn campau megis rygbi, pêl-droed, golff a marchogaeth ceffylau. Ymrwmiwn i gefnogi pob disgybl i fod yn unigolion iach. Y mae dulliau ymwybyddiaeth ofalgar yn tanategu ein strategaeth lles, yn ogystal â sicrhau fod pob disgybl yn ymarfer yn rheolaidd ac yn bwyta ac yfed yn iach.

Celfyddydau Perfformio

Yn Ysgol Maesydderwen, sylweddolwn fod gennym ystod eang iawn o dalentau yn ein plith ac anelwn i annog pob disgybl i gyflawni ei lawn botensial. Y mae gennym draddodiad cryf o ran Cerddoriaeth a Chelfyddydau Perfformio; mae'r gweithgareddau allgyrsiol yn cynnwys côr a cherddorfa ysgol, a gwersi offerynnol unigol. Drwy gydol y flwyddyn, mae cyfleoedd i ddysgwyr berfformio mewn digwyddiadau ysgol fel sioeau, cystadleuthau ac yn y gymuned leol. Mae ein cynhyrchiad ysgol blynyddol bob amser yn creu tipyn o si wrth gynnwys dysgwyr o Flwyddyn 7 i 13 mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, boed yn aelod o'r cast, y gerddorfa neu'r criw ôl-llwyfan.

“Mae llawer o weithgareddau amser cinio ac ar ôl yr ysgol fel pêl-droed a phêl-rwyd. Hefyd, mae'r côr neu gerddorfa'r ysgol. Mae rhywbeth at ddant pawb.” Disgybl Blwyddyn 9





Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Maesydderwen yn llwyddiannus ac effeithiol. Ein hamcan yw i ddarparu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol i bob disgybl, tra chydabod bod angen cefnogaeth ychwanegol ar rai dysgwyr. Mae ein cydlunydd ADY yn sicrhau fod y ddarpariaeth yn amrywio yn ôl anghenion pob unigolyn. Mae Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu cytuno gyda rhieni a gofawlyr ac adolygir y rhain bob blwyddyn.

Uned Ddysgu Arbennig

Mae Ysgol Maesydderwen yn gartref i Uned Ddysgu Arbennig sirol sy'n arbennigo mewn diwallu anghenion dysgwyr awtistaidd (ASD) a dysgwyr gydag anghenion cymhedrol (MLD). Mae'r Uned yn galluogi dysgwyr i gael hyd i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt tra hefyd manteisio ar y cyfle o fod mewn amgylchedd brif-ffrwd. Yn yr Uned, mae athro arbennigol a gefnogir gan gynorthwyyr dysgu tra arbennigol.

Cynllun Mynediad Anabledd

Mae Ysgol Maesydderwen yn ymrwmo i sicrhau triniaeth gyfartal i holl weithwyr, disgyblion ac unrhyw aelodau eraill o'n cymuned ysgol gydag unrhyw fath o anabledd. Sicrhawn na fydd pobl anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol mewn unrhyw weithdrefnau, arfer neu wasanaeth.

Meddygaeth a Thostrwydd

Gofynnwn i rieni a gofawlyr i beidio â danfon eu plentyn i'r ysgol os ydynt yn anhwylyus. Os bydd plentyn yn mynd yn dost yn ystod y dydd, ceisiwn gysylltu â rhieni. Cyfrifoldeb rhieni yw i sicrhau eu bod wedi rhannu'r manylion cysylltu perthnasol gyda swyddfa'r ysgol. Os oes rhaid i'ch plentyn gymeryd moddion presgripsiwn yn ystod y dydd ysgol, bydd rhaid llenwi ffurflen weinyddiaeth berthnasol, ac mae'n rhaid i bob moddion fod yn ei becyn gwreiddiol.

Diogelu

Mae diogelwch ein safle ysgol yn holl bwysig i ni. Rydym yn adnabod bod plant yn ffynnu pan fyddant yn teimlo'n ddiogel, gysurus ac hapus. Mae staff wedi'u hyfforddi yn y gweithdrefnau amddiffyn plant perthnasol ac mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r holl ganllawiau statudol ac awdurdod lleol.

"Mae'r Uned yn le gwyh ac mae e wedi helpu fi drwy sawl profiad caled." Disgybl yr STF

Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad

Mae ein gofal bugeiliol ardderchog yn ganolig i bopeth rydym yn ei wneud yn Ysgol Maesydderwen. Rydym wedi sefydlu enw da fel ysgol ofalgar, gymhwysol lle mae pob disgybl yn teimlo yn werthfawr. Rhoddwn amser i ddarparu arweiniad personol ystyrlon, yn helpu i ddatblygu ymdeimlad cryf o gymuned ysgol i sicrhau fod pob disgybl yn hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol.

Ein Pennaeth Cynorthwyol ymroddgar yw arweinydd y tîm bugeiliol gyda chefnogaeth ein Penaethiaid Ysgol. Mae pob disgybl yn gweld ei Diwtor Dosbarth bob dydd, a dyma'r person cyntaf gan amlaf y byddent yn troi ato i ofyn am help neu gyngor. Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'n hwb bugeiliol, sy'n cael ei staffio gan aelod o staff cynorthwyol.

Presenoldeb


Mae presenoldeb yn yr ysgol yn hanfodol. Disgwylir i bob disgybl fynychu'r ysgol bob dydd, cyhyd eu bod yn ddigon iachus. Mae amhrydlondeb hefyd yn niweidio addysg disgybl. Profir bod presenoldeb a phrydlondeb da yn arwain at lwyddiant addysgiadol o well safon – mae bob dydd yn cyfrif.

Ymddygiad a Disgyblaeth

Ymrwymwn fel ysgol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn cyfleoedd i ddatblygu yn academiaidd, yn bersonol ac yn gymdeithasol i gyflawni eu potensial. Cymuned drefnus yw Ysgol Maesydderwen lle seilir disgyblaeth ar gyd-barch a systemau a gweithdrefnau clir. Cyfranodd pob aelod o gymuned yr ysgol at ddatblygu ein polisi a systemau ar ôl gosod ein disgwyliaid. Ffactorau allweddol mewn datblygu ethos positif i ddysgu yw canmoliaeth ac anogaeth.

Gwrth-fwlio

Mae cyd-barch yn ganolig i bopeth rydym yn ei wneud. Mae Ysgol Maesydderwen yn Ysgol Parchu Hawliau a rydym yn cadarnhau i ddisgyblion ar bob cyfle nad ydym yn goddef bwlio o unrhyw fath. Mae ein systemau bugeiliol yn sicrhau fod disgyblion yn gwybod â phwy dylent siarad pan fo angen. Ein hamcan yw bod ein disgyblion yn tyfu i fod yn ddinasyddion gofalgwr, cyfrifol.



Croeso i'r Chweched Dosbarth

Mae Chweched Dosbarth Ysgol Maesydderwen yn rhan dynamig, byrlymus o gymuned yr ysgol ac yn cynnig toreth o gyfleoedd newydd i ddysgwyr. Fel ysgol sydd yn ymfalchio yn ei hethos gymhwysol, mae ein Chweched Dosbarth yn croesawu pawb sy'n dangos ymroddiad ac yn barod i weithio'n galed i ddatblygu a llwyddo. Rydym yn cefnogi, datblygu ac ysbrydoli meddyliau ifainc mewn amgylchedd sy'n darparu cyfleusterau ardderchog ac ansawdd uchel o addysgu.

Gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill De Powys, a defnyddio'r system dysgu pell E-sgol drwy gyfrwng fideo, cynigwn ystod eang o bynciau Safon Uwch a chyrсияu galwedigaethol. Beth bynnag yw'r uchelgais, p'un ai cael lle yn Rhydychen, prifysgol Grŵp Russell, prentisiaeth neu gwrs galwedigaethol pellach, gall Ysgol Maesydderwen osod y seiliau angenrheidiol i baratoi am y cam nesaf. Ymfalchiwn yn llwyddiannau cyn-fyfyrrwyr Ysgol Maesydderwen a'r safonau uchel maent yn eu cyrraedd.

Mae rhaglen y Chweched Dosbarth yn cynnwys cyngor gyrfaoedd pwrpasol, cefnogaeth ar gyfer myfyrwyr dawnus drwy'r rwydwaith SEREN, gweithdai gyda darlithwyr, ymweliadau â phrifysgolion, ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol a chefnogaeth ychwanegol wrth i'r arholiadau nesau. Ar ben hyn, mae myfyrwyr yn derbyn cefnogaeth ymarferol a phersonol gyda'u hymgeisiadau prifysgol, ac wrth sicrhau prentisiaethau neu swyddi gwerthfawr mewn marchnad dra gystadleuol.

Yn ogystal, caiff fyfyrwyr y Chweched Dosbarth nifer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth drwy ymgeisio am ddyletswyddau fel Prif-fachgen/ferch, Uwch-swyddog neu Fentor. Mae gan y Chweched eu hystafell arbennig gydag adran astudio tawel a mynediad i gyfleusterau TGCh. Mae ein myfyrwyr Chweched Dosbarth yn gosod esiampl gwych i'n disgyblion iau i'w efelychu ac yn genhadon ardderchog i'r ysgol.



Mynediad a Phontio

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o 11 mlwydd oed o'r ysgolion cynradd canlynol:

Ysgol Bro Tawe
Ysgol y Cribarth
Ysgol Golwg y Cwm
Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr

Rydym yn cyd-weithio'n agos iawn gyda'r ysgolion cynradd yn ein talgylch a cheir rhaglen drosglwyddo ardderchog. Rydym hefyd yn derbyn disgyblion tu allan i'r dalgylch, cyn belled â'n bod ddim yn mynd dros y nifer o fynediadau ar gael. Dylid gwneud ymgeisiadau drwy Gyngor Sir Powys fodd bynnag, gofynnwn i rieni gysylltu â'r ysgol i drefnu ymweliadau ysgol.

Mae cychwyn ysgol newydd yn gam enfawr mewn bywyd plentyn a gall hefyd fod yn adeg cyffrous a phryderus. Ein nod yw i wneud yr holl broses o drosglwyddo yn brofiad dymunol, di-straen i ddisgyblion a rhieni fel ei gilydd. Mae ein staff yn ymweld â'r ysgolion cynradd lleol yn rheolaidd i gwrdd â disgyblion a staff ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan Flwyddyn 5 a 6 am yr ysgol uwchradd. Yn ystod Tymor yr Hydref bob blwyddyn, cynhelir Noson Agored i rieni a disgyblion cynradd a dyma gyfle da i ymweld â'r ysgol, cyfarfod ag athrawon, siarad â disgyblion yr ysgol, cymeryd rhan mewn gweithgareddau a mwynhau ein cyfleusterau.

Mae ein prosiect trosglwyddo ac ymweliad yn ystod Tymor yr Haf yn rhoi cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 6 gael blas ar fywyd yn Ysgol Maesydderwen. Yn ogystal, gwahoddir rhieni a gofalwyr i gyfarfod fin nos i hwyluso'r broses trosglwyddo.

